



Pecyn Swydd

Uwch Gyfreithiwr – Contractau a Chaffael



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

This document is also available in English.



uchelgaigogledd.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Am y swydd	4
Swydd Ddisgrifiad	5
Manylion Person	7
Ein Gwerthoedd	9
Ymunwch a'r Tîm	10
Amserlen Recriwtio	11
Gweithio i ni	12
Buddion	13

Am fwy o wybodaeth am y swydd,
cysylltwch â:



Mark Watkins

Pennaeth Cyfreithiol

swyddi@uchelgaigsgogledd.cymru

Amser cyffrous i ymuno â'r tîm

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru.

Fel Cyd-Bwyllgor Corfforedig mae ganddo ni ddyletswyddau statudol dros y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Stratgeol, ochr yn ochr a dyletswydd anstatudol dros Les Economaidd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd i'r dyfodol. Sefydlwyd Tîm Uchelgais Gogledd Cymru yn wreiddiol i gyflawni'r Cynllun Twf, a bellach mae y cylch gwaith ehangach gan fod yn Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r tîm yn cefnogi uchelgeisiau rhanbarthol ar gyfer economi gryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwy llewyrchus i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma. Ein nod yw i greu swyddi newydd â chyflogau uchel, denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi datblygu set o werthoedd sy'n ategu sut rydym yn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith.



Cyng. Mark Pritchard

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Alwen Williams

Prif Weithredwr Uchelgais
Gogledd Cymru

Am y swydd

Uwch Gyfreithiwr – Contractau a Chaffael

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno ag Uchelgais Gogledd Cymru fel ein Huwch Gyfreithiwr newydd ar gyfer Contractau a Chaffael. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac mae'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau rhanbarthol allweddol mewn perthynas â lles economaidd, trafnidiaeth strategol a chynllunio strategol. Mae'r sefydliad hefyd yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni buddsoddi rhanbarthol mawr, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Parth Buddsoddi.

Rydym yn chwilio am gyfreithiwr ymarferol, sy'n canolbwyntio ar gyflawni a all ddarparu cyngor cyfreithiol o ansawdd uchel tra hefyd yn helpu cydweithwyr i symud gwaith cymhleth ymlaen. Nid rôl gynghorol gul yw hon. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n agos gyda thimau rhaglen, uwch swyddogion, ymgynghorwyr allanol a phartneriaid er mwyn cyflawni'n gyfreithlon, yn effeithiol ac amserol.

Bydd y rôl yn cynnwys cynghori ar gontractau masnachol, arian grant, caffael, rheoli cymorthdaliadau, llywodraethu a materion cyfraith gyhoeddus ehangach. Byddwch yn drafftio, yn adolygu a negodi dogfennau cyfreithiol, gan gynnwys cytundebau arian grant, llythyrau ariannu, cytundebau cydweithredu, cytundebau lefel gwasanaeth, trefniadau ymgynghori a dogfennaeth prosiect cysylltiedig. Rhan allweddol o'r rôl fydd helpu i gryfhau'r gallu cyfreithiol mewnol. Byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr i egluro cyfarwyddiadau, adnabod rhwystrau, symud ymlaen â ffrydiau gwaith cyfreithiol, cydlynw mewnbyn cyfreithiol allanol lle bo angen a sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn cael ei integreiddio'n briodol i gyflawni rhaglenni.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r hyder a'r hygyrdd technegol i gynghori uwch swyddogion, gweithio'n adeiladol gyda thimau rhaglen a phrosiect, a rheoli blaenoriaethau cystadleuol mewn amgylchedd rhanbarthol prysur. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gyfforddus yn gweithredu ar draws disgyblaethau cyfreithiol a chydabod pryd mae angen cyngor allanol arbenigol. Mae sgiliau cyfathrebu cryf yn hanfodol. Bydd angen i chi egluro materion cyfreithiol yn glir ac yn gymesur i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr, darparu opsiynau pragmataidd, a helpu cydweithwyr i ddeall y sefyllfa gyfreithiol a'r llwybr ymarferol i gyflawni.

Byddai'r rôl hon yn addas i gyfreithiwr cymwys sydd â phrofiad mewn llywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach, gwaith sector cyhoeddus mewn practis preifat, neu amgylchedd mewnol cyfatebol. Byddai profiad o gyllid grantiau, contractau masnachol, llywodraethu, caffael, rheoli cymhorthdal neu brosiectau mawr yn hynod o werthfawr.

Os ydych chi'n gyfreithiwr sydd am wneud cyfraniad uniongyrchol at ddyfodol gogledd Cymru, ac sy'n ymfalchïo mewn galluogi cyflawni'n gyfreithlon ac effeithiol, hoffem glywed gennych.

Swydd Ddisgrifiad

Pwrrpas y swydd

- Bydd yr Uwch Gyfreithiwr – Masnachol, Llywodraethu a Phrosiectau yn gyfrifol am ddarparu cyngor cyfreithiol ymarferol, amserol ac o ansawdd uchel i Uchelgais Gogledd Cymru.
- Bydd deiliad y swydd yn cefnogi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Cyfarwyddwr Portffolio a thimau rhaglenni drwy gynghori ar faterion masnachol, cyllid grantiau, caffael, rheoli cymorthdaliadau a materion cyfraith gyhoeddus eraill lle bo angen ac fel y bo'n briodol.
- Bydd y rôl yn helpu i gryfhau gallu cyfreithiol mewnol, yn lleihau dibyniaeth ar gymorth cyfreithiol interim ac allanol, ac yn sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau rhanbarthol allweddol yn cael eu cyflawni'n gyfreithlon, yn effeithiol a gyda gafael gyfreithiol briodol.

Cyflog: £45,529 - £47,665 (PS3) gydag ychwanegiad y farchnad o £4,000 yn flynyddol

Oriau: Hyd at 37 awr yr wythnos*

Cytundeb: Parhaol

Lleoliad: Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio o gartref)

*Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir

Core Team Responsibilities

- » Cyfrifol am ymgorffori a sicrhau bod staff gyda thimau yn ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru.
- » Cyfrifol am gefnogi cydweithwyr ac aelodau'r tîm i gyflawni blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru ac am gefnogi eu datblygiad.
- » Rheolaeth matrices o staff ac adnoddau ar draws y Cydbwyllgor Corfforedig yn ôl yr angen i gyflawni blaenoriaethau.
- » Gweithredu fel llysgennad i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth.



- Darparu cyngor cyfreithiol clir, ymarferol a chymesur ar faterion masnachol, llywodraethu, caffael, rheoli cymorthdaliadau, cyllid grant ac, weithiau, rhai materion cyfraith gyhoeddus ehangach.
- Drafftio, adolygu, negodi a chynghori ar ddogfennaeth gyfreithiol gan gynnwys Cytundebau cyllid grant, llythyrau ariannu, cytundebau cydweithredu, cytundebau lefel gwasanaeth, cytundebau ymgynghori, amrywiadau contract a dogfennau prosiect cysylltiedig.
- Cefnogi cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gwaith sy'n gysylltiedig â'r Parth Buddsoddi a phrosiectau lles economaidd eraill trwy ddarparu mewnbwn cyfreithiol amserol i gynllunio prosiectau, rheoli risg a gwneud penderfyniadau.
- Darparu sylwadau cyfreithiol ar gyfer adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, is-bwyllgorau, byrddau ymgynghorol a phrosesau gwneud penderfyniadau swyddogion.
- Gweithio gyda rheolwyr rhaglenni ac uwch swyddogion i sicrhau bod cyfarwyddiadau cyfreithiol yn glir, bod dyddiadau cau'n realistig, bod rhwystrau'n cael eu nodi'n gynnar a bod ffrydiau gwaith cyfreithiol yn cael eu symud ymlaen yn weithredol.
- Cynghori ar faterion caffael a rheoli cymhorthdal ar lefel briodol, gan gynnwys nodi pryd mae angen cyngor allanol arbenigol.
- Cyfarwyddo, cydlynu a rheoli cyfreithwyr allanol, cwnsleriaid ac ymgynghorwyr cyfreithiol eraill lle bo angen, gan sicrhau gwerth am arian, sgôp clir, dyddiadau cau priodol a throsglwyddo gwybodaeth yn effeithiol.
- Cefnogi datblygu a chynnal templedi cyfreithiol, canllawiau, prosesau olrhain ffrydiau gwaith, prosesau gwneud penderfyniadau a dogfennaeth gyfansoddiadol.
- Cynnal perthynas waith effeithiol gyda swyddogion, aelodau, cynghorau cyfansoddol, Llywodraeth Cymru, partneriaid allanol, y sawl sy'n derbyn arian a chynghorwyr proffesiynol.
- Rheoli llwyth achosion cyfreithiol amrywiol gydag ymreolaeth briodol, gan flaenoriaethu materion brys a strategol bwysig a chyfeirio risgiau cyfreithiol, llywodraethu neu gyflawni lle bo angen.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau gofynnol a rhesymol eraill sy'n gymesur â lefel y rôl i gefnogi cyflawni blaenoriaethau sefydliadol.



Manylion Person



Cymhwysterau

Hanfodol

- Cyfreithiwr cymwysedig, bargyfreithiwr neu Weithredwr Cyfreithiol Siartredig sydd â'r hawl i ymarfer yng Nghymru a Lloegr.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Dealltwriaeth gref o safonau proffesiynol

Dymunol

- Aelodaeth o Gyfreithwyr Llywodraeth Leol neu gorff proffesiynol perthnasol arall.
- Hyfforddiant neu brofiad ychwanegol mewn caffael, rheoli cymorthdaliadau, cyfraith fasnachol neu gyfraith gyhoeddus.



Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau

Hanfodol

- Profiad o ddrafftio, adolygu a negodi dogfennaeth gyfreithiol fasnachol neu sector cyhoeddus.
- Profiad o gynghori uwch swyddogion, rheolwyr neu gleientiaid ar faterion cyfreithiol cymhleth mewn ffordd glir, ymarferol a chymesur.
- Y gallu i reoli llwyth achosion amrywiol, blaenoriaethu gofynion cystadleuol a gweithio'n effeithiol ar derfynau amser.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig cryf, gan gynnwys y gallu i baratoi sylwadau cyfreithiol, nodiadau briffio, adroddiadau, gohebiaeth a chyfarwyddiadau drafftio.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf, gan gynnwys y gallu i adeiladu hygrededd gydag uwch swyddogion, cydweithwyr, partneriaid ac ymgynghorwyr allanol.
- Llythrennog mewn TGCh, gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, Teams, Outlook, Word, PowerPoint, SharePoint ac Excel.

Dymunol

- Profiad o gynghori ar gytundebau cyllid grant, rhaglenni ariannu, adfywio, seilwaith, datblygu economaidd neu brosiectau buddsoddi rhanbarthol.
- Profiad o gyfraith caffael a rheoli cymorthdaliadau, gan gynnwys y gallu i gydnabod pryd mae angen cyngor arbenigol.
- Profiad o weithio gydag aelodau etholedig, pwyllgorau, is-bwyllgorau neu drefniadau gwneud penderfyniadau ffurfiol yn y sector cyhoeddus.
- Profiad o roi cyfarwyddyd a rheoli cyfreithwyr allanol, cwnsleriaid neu gynghorwyr cyfreithiol arbenigol.
- Gwybodaeth am lywodraeth leol yng Nghymru, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, trefniadau partneriaethau rhanbarthol neu dirwedd sector cyhoeddus Gogledd Cymru.
- Profiad o gefnogi cyflawni rhaglenni neu brosiectau, gan gynnwys rheoli risg, rheoli dibyniaeth ac olrhain ffrydiau gwaith cyfreithiol.
- Rheoli risg cyfreithiol ac atebolrwydd y sector cyhoeddus.
- Profiad o ddarparu cyngor cyfreithiol mewn llywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach, gwaith sector cyhoeddus, practis preifat, neu amgylchedd mewnol cyfatebol.
- Gwybodaeth am egwyddorion cyfraith gyhoeddus, gwneud penderfyniadau cyfreithlon, llywodraethu, tryloywder, atebolrwydd a risg gyfreithiol.
- Y gallu i weithio ar y cyd â thimau rhaglenni, arweinwyr prosiectau, cyllid, caffael a phartneriaid allanol.

Manylion Person



Nodweddion Personol

Ar gyfer y rôl hon mae'r gofynion canlynol yn hanfodol:

- Yn ymarferol, yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ac yn meddwl am gyflawni.
- Yn gallu rhoi cyngor clir heb or-gymhlethu materion.
- Yn ddigon hyderus i herio lle bo angen, ond ag agwedd adeiladol.
- Yn drefnus, yn ddibynadwy ac yn gallu dilyn materion nes eu cwblhau.
- Yn gyfforddus yn gweithio mewn tîm bach lle mae angen hyblygrwydd a pherchnogaeth.
- Yn gallu gweithio ar gyflymder gan gynnal barn broffesiynol a chywirdeb cyfreithiol.
- Wedi ymrwymo i gyflawni'n gyfreithlon, yn foeseolog ac yn dryloyw yn y sector cyhoeddus.



Gofynion leithyddol

Ar gyfer y rôl hon mae'r gofynion canlynol yn DDYMUNOL:

- Gwrando a Siarad - Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Darllen a Deall - Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd
- Ysgrifennu - Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darlennydd

Hefyd, mae'r gofyniad canlynol yn HANFODOL:

- Dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg i'r rhanbarth a pharodrwydd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.



Rydym yn Uchelgeisiol

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.



Rydym yn gweithio ar y cyd

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.



Rydym yn gwneud y peth iawn

Rydym ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymadau y cytunwyd arnynt ar amser.



Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hól troed.

Ymddygiadau craidd i bob rôl

- Arweinyddiaeth - rydym oll yn arwain drwy esiampl ac rydym i gyd yn arweinwyr yn ein meysydd ein hunain.
- Cyfrifoldeb - rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith, ein perfformiad a'n datblygiad.
- Parch - rydym yn parchu ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac yn arddangos hyn drwy ein gwaith ac yn y ffordd yr ydym yn adeiladu perthnasau effeithiol.



Ymunwch a'n tîm

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm?

Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni'n chwilio am i ymuno â'n tîm.

Fel partneriaeth mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn graidd i'r hyn ydym yn ei wneud fel tîm. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngbersonol rhagorol, sy'n frwd dros weithredu i'r rhanbarth ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid i yrru'r prosiectau yn eu blaenau.

Er bod gan bob rôl o fewn y tîm ei ffocws ei hun, bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach y tîm a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n gallu arwain eu meysydd eu hunain ond hefyd yn cefnogi eu cydweithwyr i gyflawni. Yn gyfnewid am hyn, fe welwch lwyth gwaith amrywiol a diddorol gyda chyfleoedd i gyfrannu ar draws ein portffolio.

Mae datblygiad proffesiynol a phersonol yn bwysig i ni. Bydd y tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi amgylchedd gefnogol i chi barhau â'ch datblygiad gyda nifer o gyfleoedd datblygu ffurfiol ac anffurfiol ar gael. Rydym yn annog ein tîm i ddilyn cyfleoedd datblygu proffesiynol ac rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o'n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol. Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?

Hedd Vaughan-Evans
Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru



Amserlen Recriwtio



Dyddiad cau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn

10yb

05/11/2026



Rhestr Fer

Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweiliad.

erbyn

12/11/2026



Asesiadau

Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweiliad. Byddwch yn derbyn y manylion os ar y rhestr fer.

erbyn

23/11/2026



Cyfweiliadau

Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer.

25/11/2026

Y Broses Ymgeisio



Dilynwch y linc [yma](#) i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.



Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.



Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb personol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.



Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, bydd manylion y cyfweiliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.



Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg cyn y cyfweiliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweiliad).



Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

Y Cyflogwr

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yd'r awdurdod cyflogi.



Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol, rhanbarthol newydd sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.



Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cael ei adnabod o dan y brand Uchelgais Gogledd Cymru.



Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt – cynllunio strategol, trafnidiaeth strategol a llesiant economaidd.

Buddion

Mae nifer o fuddion o weithio i Uchelgais Gogledd Cymru, mae manylion llawn ar gael [yma](#). Dyma grynodedb o'r prif fuddion:



Cynllun Pensiwn

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd



Gwyliau Blyneddol

Mae gan weithwyr yr hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall



Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus



Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg



Hyfforddiant a Datblygiad

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith





uchelgaigogledd.cymru
swyddi@uchelgaigogledd.cymru